



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynnig-gofal-plant-cymru-gwasanaeth-digidol-cenedlaethol-strategaeth-ddigidol-chymorth-cynnwys> (<https://llyw.cymru/cynnig-gofal-plant-cymru-gwasanaeth-digidol-cenedlaethol-strategaeth-ddigidol-chymorth-cynnwys>) i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](https://llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

POLISI A STRATEGAETH

Cynnig Gofal Plant Cymru: gwasanaeth digidol cenedlaethol strategaeth ddigidol â chymorth

Y trefniadau cymorth i helpu pobl sy'n methu defnyddio gwasanaeth digidol y Cynnig Gofal Plant heb gymorth.

Cyhoeddwyd gyntaf: 7 Tachwedd 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 7 Tachwedd 2022

Cynnwys

Gwasanaeth digidol cenedlaethol strategaeth ddigidol â chymorth (#page-50955)

Introduction (#section-108279)

Main principles for the Childcare Offer national digital service (#section-108281)

Assisted digital support (#section-108283)

General support (#section-108285)

Additional support for childcare providers (#section-108287)

Additional support for parents (#section-108289)

Cynnig Gofal Plant Cymru: strategaeth ddigidol â chymorth (atodiad 1) (#page-51002)

Mission 1: digital services (#section-108520)

Mission 2: digital inclusion (#section-108522)

Web Content Accessibility Guidelines (#section-108524)

Cyflwyniad

Mae'r **Strategaeth Ddigidol i Gymru** (<https://llyw.cymru/strategaeth-ddigidol-i-gymru>) yn nodi sut y mae gwasanaethau digidol a chynhwysiant digidol yn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus modern ac effeithlon.

Mae gwasanaeth digidol cenedlaethol Cynnig Gofal Plant Cymru (y Cynnig Gofal Plant) yn croesawu'r strategaeth newydd a'i Hegwyddorion, sydd wedi'u nodi yn Atodiad 1. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu'r trefniadau sydd ar waith i helpu pobl i ddefnyddio gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant os bydd angen.

Prif egwyddorion gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant

Mae gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant wedi cael ei ddatblygu ar sail egwyddorion Strategaeth Ddigidol Cymru. Gwasanaeth cwbl ddigidol yw hwn, ac nid oes opsiynau cyfochrog all-lein. Fodd bynnag, mae yna gyfres o drefniadau cymorth, gan gynnwys gwasanaeth ffôn, i'r rheini sydd angen help llaw i ddefnyddio'r gwasanaethau ar-lein.

Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd y feddalwedd ddigidol yn defnyddio adnoddau technoleg gynorthwyol sydd wedi'u rhestru yng Ngwasanaeth Digidol y Llywodraeth.

Cynigir canllawiau ar y sgrin a fydd yn cyfeirio defnyddwyr at ddeunyddiau cymorth neu nodiadau esboniadol, a bydd hyn oll ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r system yn cael ei datblygu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd modd i

ddefnyddwyr fynd o un iaith i'r llall.

Cyn i wasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant gael ei sefydlu, byddai ceisiadau am gyllid o dan y Cynnig yn cael eu cyflwyno i 10 awdurdod lleol (ALI) a oedd yn cyflawni rôl awdurdodau gweithredu (AG), a hwythau wedyn yn eu prosesu. Y 10 AG hyn oedd yn cyflawni llawer o waith gweinyddol y Cynnig Gofal Plant ar ran y 22 ALI. Wrth symud i wasanaeth cwbl ar-lein, rydym wedi cydweithio'n agos â phob un o'r 22 ALI, ac yn benodol gyda'r 10 AG, yn ogystal ag â nifer o rieni a darparwyr gofal plant.

Ystyriwyd y pwyntiau isod fel rhan o'r broses o benderfynu symud i wasanaeth ar-lein, gan sefydlu gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant.

- nid yw fersiynau papur neu all-lein mor ddiogel
- maent yn cymryd mwy o amser i'w cwblhau
- maent yn llai cost-effeithiol
- nid yw'n hawdd cyfeirio'r defnyddiwr at wybodaeth bellach
- mae mwy o risg o wneud camgymeriadau
- nid yw mor hawdd eu diwygio i'w gwella
- nid ydynt yn helpu i feithrin sgiliau a hyder digidol sylfaenol y defnyddiwr

Mae'n werth nodi hefyd, o'r 10 AG sy'n gweinyddu'r Cynnig Gofal Plant, nad oes gan chwech fersiynau papur o'u gwasanaethau; maent i gyd ar-lein, ond cynigir cymorth uniongyrchol lle bo angen. Ni wnaeth pedwar o'r AGau ymateb.

Cymorth digidol

Er bod gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant wedi cael ei brofi nifer o weithiau ymhlith defnyddwyr wrth iddo ddatblygu, mae'n anochel y gallai fod angen cymorth ar rai (rhieni a darparwyr gofal plant) i ddefnyddio'r gwasanaeth. Efallai nad yw'n glir iddynt beth sy'n cael ei ofyn yn y cais ar-lein neu fod angen mwy o wybodaeth arnynt nag y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu. Gallai lleoliad unigolyn, ei iechyd a'i offer hefyd effeithio ar ei allu i

ddefnyddio'r gwasanaeth. Bydd angen cymorth ar rai defnyddwyr, felly, i ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein. Cyfeirir at hyn fel 'cymorth digidol' yn y ddogfen hon.

Efallai y bydd angen cymorth digidol ar ddefnyddiwr, os na all yn gorfforol ddefnyddio'r gwasanaeth digidol a/neu os nad oes ganddo:

- ymddiriedaeth yn y gwasanaeth neu yn y defnydd o'r rhyngrwyd
- hyder i ddefnyddio gwasanaeth ar-lein
- mynediad at y rhyngrwyd (cysylltedd a dyfeisiau)
- sgiliau digidol sylfaenol
- cymhelliant i oresgyn y rhwystrau hyn ar ei ben ei hun

Yn gyffredinol, bydd tri math o gymorth digidol y gallai fod ei angen ar ddefnyddwyr:

1. pasio gwiriadau diogelwch - actifadu cyfrifon
2. cymorth i lywio'u ffordd drwy'r system
3. cymorth i gofnodi gwybodaeth

Wrth ddatblygu'r gwasanaeth, roeddem yn awyddus i gynnwys defnyddwyr a nododd eu bod wedi'u hallgáu'n ddigidol yn ein gwaith ymchwil a phrofi. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu recriwtio unrhyw rieni plant o oedran y Cynnig Gofal Plant, nac yn agos at yr oedran hwnnw, a nododd eu bod wedi'u hallgáu'n ddigidol – hyd yn oed ar ôl defnyddio asiantaeth recriwtio arbenigol a chynnig cymhellion. Ni ddisgwylir i allgáu digidol fod yn broblem fawr, felly, i'r grŵp hwn o ddefnyddwyr.

Ar sail gwybodaeth gan ALLau, partneriaid Cwlwm ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), gallai'r elfen ddigidol fod yn broblem i rai darparwyr gofal plant, yn enwedig gwarchodwyr plant. Aethom ati, felly, i weithio gyda PACEY Cymru, y corff sy'n cynrychioli gwarchodwyr plant, er mwyn dod o hyd i ddefnyddiwr priodol i lywio a phrofi'r broses o ddylunio ac adeiladu'r gwasanaeth.

Gwyddom fod AGC yn gweld cyfradd uchel iawn o Ddatganiadau Hunanasesu Gwasanaeth digidol gan ddarparwyr gofal plant, a bod dros 50% o systemau

cyfredol ALLau ar gyfer gwneud cais am y Cynnig Gofal Plant yn rhai ar-lein yn unig, heb unrhyw broblemau mawr. Mae gan bob ALI gynllun clir i gefnogi'r rheini sydd angen cymorth gyda'r gwasanaeth ar-lein. Mae ALLau yn dweud wrthym nad oes problemau wedi'u cofnodi hyd yma ymhlith rhieni/darparwyr wrth ddefnyddio'r prosesau hyn. Byddwn yn sicrhau bod defnyddwyr sydd angen cymorth digidol yn gwybod ei fod ar gael a sut i gael gafael arno. Bydd negeseuon am y cymorth hwn yn cael eu rhannu drwy sawl cyfrwng.

Er mai dim ond ar-lein y bydd gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant ar gael, bydd amrywiaeth o opsiynau cymorth all-lein ar gael i ddefnyddwyr i'w galluogi i ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein, e.e. ar y ffôn a wyneb yn wyneb. Mae opsiynau cymorth ar-lein hefyd yn cael eu hystyried wrth inni ysgrifennu'r adroddiad hwn. Gan fod y gwasanaeth ar gael drwy unrhyw ddyfais sy'n gysylltiedig â'r rhyngwyd, gall defnyddwyr nad ydynt yn berchen ar ddyfais neu sy'n profi tlodi data gael mynediad at y gwasanaeth drwy ddyfeisiau rhad ac am ddim mewn llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae Cymunedau Digidol Cymru yn gweithio gyda staff llyfrgelloedd i ddatblygu eu sgiliau digidol, gan gydnabod y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae o ran cefnogi dinasyddion.

Mae Cymunedau Digidol Cymru wedi datblygu adnoddau pwrpasol, sydd ar gael ar-lein, i'r rheini sydd angen cymorth i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder digidol sylfaenol. Drwy Cymunedau Digidol Cymru, gallwn ddarparu cymorth wyneb yn wyneb lle bo angen cydnabyddedig.

Mae Cymunedau Digidol Cymru yn gweithio gyda sefydliadau cymunedol i gynnal 'archwiliadau o sgiliau digidol' sy'n helpu i nodi bylchau yng ngwybodaeth staff, er mwyn cefnogi dinasyddion ag ymholiadau digidol. Mae'r archwiliad hwn yn caniatáu i Cymunedau Digidol Cymru deilwra hyfforddiant yn unol â hynny, i sicrhau bod yr holl staff rheng flaen yn hyderus yn ddigidol, ac felly yn gallu cyflawni anghenion dinasyddion sy'n chwilio am gymorth i ddefnyddio gwasanaethau digidol.

Cymorth cyffredinol

Bydd staff yr AGau yn parhau i ystyried y ceisiadau, a bydd pob ALI yn parhau â'u rôl o gefnogi rhieni a lleoliadau gofal plant i fanteisio ar y Cynnig Gofal Plant. Cyn cyflwyno'r gwasanaeth, bydd staff ym mhob ALI wedi derbyn hyfforddiant a chymorth ar bob rhan o'r gwasanaeth, a byddant yn gyfarwydd â'r prosesau er mwyn cefnogi rhieni a lleoliadau gofal plant. Bydd y defnyddiwr (rhieni/darparwyr) yn gallu manteisio ar y gefnogaeth hon naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg drwy ffurflen ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb drwy eu ALI. Pan fydd defnyddiwr yn cysylltu â'r llinell gymorth am help, caiff yr alwad ei chyfeirio at yr ALI priodol, yn dibynnu ar natur yr ymholiad a dewis iaith yr unigolyn sy'n ffonio. Os, am ryw reswm, bydd problem gyda'r broses hon, gall yr ALLau drosglwyddo galwadau rhwng y naill a'r llall yn hwylus.

Ni chynigir cymorth drwy we-sgwrs am y tro, ond caiff hyn ei ystyried fel rhan o'r Model Gweithredu Targed.

Caiff pob ALI eu hyfforddi ar bob agwedd ar y gwasanaeth digidol, a gallant i gyd gynnig cymorth cyffredinol. Yn achos cwestiynau mwy penodol, e.e. pan fydd rhiant eisoes wedi gwneud cais ac eisiau trafod eu cais, caiff y galwadau hyn eu cyfeirio'n awtomatig at yr AG perthnasol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fydd yr ALI dynodedig i helpu gydag ymholiadau Porth y Llywodraeth ac unrhyw alwadau Cymraeg nad oes modd i'r Awdurdod Lleol gwreiddiol ddelio â nhw, boed yn AG neu'n un o'r 12 ALI arall (Awdurdodau Ymgysylltu).

Darperir cyllid i ALLau i godi ymwybyddiaeth o'r Cynnig yn lleol, a bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut i gael gafael ar gymorth. Mae contract wedi'i lunio hefyd ar gyfer ymgyrch genedlaethol i gefnogi'r gweithgarwch ac i godi ymwybyddiaeth drwy gyfryngau traddodiadol, megis hysbysebion radio, yn ogystal â chyfryngau cymdeithasol. Darparwyd gwaith celf i ALLau y gellir ei argraffu i'w ddefnyddio gan leoliadau gofal plant i godi ymwybyddiaeth ymhlith

rhieni drwy daflenni, posterï a baneri. Gall ALLau ddefnyddio'r rhain hefyd i hysbysebu mewn papurau newydd lleol a chylchgronau os ystyrir hynny'n briodol.

Mae gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant wedi'i brofi a'i ddylunio i fod mor hwylus â phosibl. Byddwn hefyd yn darparu deunyddiau cymorth dwyieithog ar-lein i helpu defnyddwyr i allu bod mor annibynnol â phosibl wrth ddefnyddio'r gwasanaeth. Caiff y deunyddiau cymorth eu hysgrifennu gan ddefnyddio iaith glir a chânt eu cyhoeddi ar ffurf html fel bod y cynnwys yn gydnaws â thechnoleg gynorthwyol, ac felly'n diwallu anghenion llawer o ddefnyddwyr. Bydd yr wybodaeth yn cael ei chadw ar wefan llyw.cymru, ac felly bydd yn bodloni **safon AA Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We (WCAG) 2.1** (<https://llyw.cymru/safonau-hygyrchedd-ar-gyfer-llywcymru>). Mae'r **wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill** (<https://llyw.cymru/ieithoedd-amgen>).

Gyda chymorth y deunyddiau ar llyw.cymru, bydd defnyddwyr yn gallu:

- newid lliwiau, lefelau cyferbyniad a ffontiau
- chwyddo'r testun hyd at 300% heb i'r testun ddiflannu oddi ar y sgrin
- llywio'u ffordd drwy'r rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio bysellfwrdd yn unig
- llywio'u ffordd drwy'r rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio meddalwedd adnabod lleferydd
- defnyddio'r rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio rhaglen darllen sgrin

Os oes angen fformatau ychwanegol ar gyfer anghenion penodol, caiff hyn ei ystyried. Os nad yw defnyddiwr yn gallu cael gafael ar y deunyddiau cymorth ar-lein, bydd tîm yr ALI yn gallu darparu'r wybodaeth dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Mae hefyd yn fwriad datblygu deunyddiau cymorth ar ffurf fideo, gyda sain ac is-deitlau. Caiff y posibilrwydd o ddatblygu fersiynau Iaith Arwyddion Prydain hefyd ei ystyried, gydag opsiwn i weld capsiynau trawsgrifiad. Drwy'r rhaglen cynhwysiant digidol ac iechyd a gafodd ei chaffael gan Lywodraeth Cymru, Cymunedau Digidol Cymru, byddwn yn ystyried sut i sicrhau bod modd cael gafael ar y fideos yn hwylus.

Byddwn hefyd yn darparu gwybodaeth ychwanegol am elfennau o'r Cynnig Gofal Plant y mae rhieni a darparwyr wedi dweud wrthym eu bod yn gallu bod yn gymhleth i'w deall, megis sut mae elfennau addysg gynnar a gofal plant y Cynnig yn gweithio gyda'i gilydd, a'r oriau gofal plant sydd ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol.

Darpariaeth cymorth gwasanaethau

Byddwn yn cydweithio ag ALLau i sicrhau:

- y gellir cynnig gwasanaethau cymorth yn ddwyieithog
- y cânt eu hariannu'n ddigonol drwy gyllid grant, gan gynnwys wrth reoli newidiadau yn y galw am gymorth, megis ar adegau prysurach o'r flwyddyn neu pan fo'r hen systemau yn cael eu diddymu'n raddol, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio
- y caiff lefel y cymorth sydd ei angen ganddynt ei fonitro drwy gydol y cyfnod pontio
- y darperir cymorth yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr
- y caiff staff hyfforddiant priodol i gynnig cymorth
- y bydd y system ddigidol yn gyfleus i ddefnyddwyr ac yn hawdd ei defnyddio
- y cedwir gwybodaeth am ddefnyddwyr yn ddiogel ac y diogelir eu preifatrwydd
- y gallant roi adborth ar y cymorth drwy sefydlu systemau pwrpasol fel bod unrhyw enghreifftiau o ddryswch ymhlith defnyddwyr yn llywio penderfyniadau wrth ddylunio systemau neu ddiweddarau cymorth
- y gallant arwain defnyddwyr yn hawdd drwy Borth y Llywodraeth

Cymorth dros y ffôn

Bydd cymorth dros y ffôn ar gael i rieni a darparwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd staff yr ALI yn gofyn iddynt a yw'r ymholiad yn ymwneud â'r Cynnig Gofal Plant neu a yw'n gwestiwn technegol. Yn dilyn diagnosis cychwynnol, bydd yr ymholiad naill ai'n cael ei ateb yn gyflym dros y ffôn neu efallai y bydd angen

ymchwilio ymhellach iddo.

Fel y pwynt cymorth cyntaf, bydd staff yr ALI yn parhau i ddarparu'r cymorth angenrheidiol ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â'r Cynnig Gofal Plant, ac yn darparu canllawiau cam wrth gam lle bo angen.

Bydd staff yr ALI yn cael canllawiau i'w galluogi i ddatrys materion technegol syml, megis ailosod cyfrinair. Fodd bynnag, ar gyfer materion technegol mwy cymhleth, bydd staff yr ALI yn cyfeirio'r mater/cais i dîm cymorth technegol ail linell i'w ddatrys.

Rhoddir Gweithdrefnau Gweithredu Safonol i staff yr ALI eu dilyn, cânt eu hyfforddi'n llawn ar bob elfen o'r gwasanaeth digidol, a bydd deunyddiau cymorth ar gael iddynt i helpu rhieni a darparwyr yn ôl y gofyn.

Bydd staff yr ALI sy'n profi problemau technegol eu hunain yn gallu eu nodi. Caiff manylion y broses ar gofnodi problemau eu darparu i ALLau.

Cymorth wyneb yn wyneb

I'r defnyddwyr hynny sydd heb ddyfais neu gysylltiad â'r rhyngwrdd, bydd cymorth hefyd ar gael wyneb yn wyneb. Os bydd angen help ar rieni i gwblhau eu cais, neu ar ddarparwyr i gyflwyno eu manylion, e.e. oherwydd eu bod wedi'u hallgáu'n ddigidol, yna dylent gysylltu â'u Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd neu gyswllt arall yn yr ALI am gymorth. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r rhai na allant yn gorfforol deipio eu gwybodaeth eu hunain i'r gwasanaeth am eu bod yn anabl neu am nad oes ganddynt hyder i ddefnyddio gwasanaethau digidol. Yn yr achosion hyn, bydd ALLau yn eistedd gyda'r defnyddiwr a, lle bo'n bosibl, ei helpu i ddefnyddio'r gwasanaeth digidol ei hun. Bydd angen cymorth wyneb yn wyneb ar rai defnyddwyr mewn gwahanol leoliadau, er enghraifft:

- swyddfeydd/canolfannau teulu'r ALI
- efallai y bydd modd i warchodwyr plant gael cymorth yn eu cartref eu hunain
- efallai y bydd modd i leoliadau gofal plant gael cymorth yn y lleoliad ei hun

Rhaid bod gan y defnyddiwr a'r darparwr cymorth fynediad at yr wybodaeth ar y sgrin.

Yn ddelfrydol, bydd y defnyddiwr yn cael cymorth i deipio ei wybodaeth ei hun yn hytrach na bod staff yr ALI yn gwneud hyn ar ei ran. Diogelwch data yw'r rheswm dros hyn, a hefyd bydd yn helpu'r defnyddiwr i ddatblygu sgiliau digidol a magu hyder.

Yn achos unrhyw un sy'n anabl neu'n methu'n gorfforol â chwblhau'r cais, byddai angen i'r ALI greu cyfrif defnyddiwr, mewnbynnu data ar gyfer y defnyddiwr a sganio dogfennau i'w lanlwytho ar ran y defnyddiwr.

Ar adegau, efallai y bydd rhiant/darparwr yn gofyn i oedolyn y mae'n ymddiried ynddo i gwblhau'r wybodaeth ar ei ran. Byddai angen i'r rhiant/darparwr fod yn bresennol, gwybod yr holl ddata sydd eu hangen a dod â chopïau papur o ddogfennau i'w lanlwytho.

Byddai'n ofynnol i'r rhai sy'n gallu cwblhau'r cais yn gorfforol ddod â chopïau o'u tystiolaeth ddogfennol i weithle priodol, lle gall swyddog yr ALI eu helpu i lanlwytho'r dogfennau eu hunain.

Byddai angen i'r rhai sy'n gallu mewnbynnu data i'r cais digidol ond sy'n ei chael yn anodd tynnu lluniau, sganio neu lanlwytho tystiolaeth ddogfennol ymweld â swyddfeydd yr ALI fel y gallai staff gynnig arweiniad a chymorth i lanlwytho'r dystiolaeth. Gallai staff llyfrgell hefyd helpu gyda'r sganio a'r uwchlwytho.

Bydd rhywun ar gael i ateb y llinell ffôn gymorth genedlaethol rhwng 8.30 a 5 o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 8.30 a 4.30 ar ddydd Gwener. Os bydd unrhyw rieni yn ffonio'r gwasanaeth cenedlaethol y tu allan i'r oriau hyn, bydd modd iddynt adael neges ar beiriant ateb yn gofyn am i rywun eu ffonio'n ôl er mwyn gallu trafod trefniadau cymorth lleol pellach.

Cymorth i ddefnyddwyr mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg

Mae ALLau mewn sefyllfa ddelfrydol i ddeall anghenion eu cymunedau lleol a darparu gwasanaeth o safon i bawb, beth bynnag eu cefndir demograffig neu gymunedol. Efallai y defnyddir gwasanaethau fel Language Line neu Wasanaeth Cyfieithu Cymru, ac mae gan lawer o ALLau eisoes eu prosesau a'u contractau eu hunain i gynnig gwasanaethau cyfieithu i'w dinasyddion.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfle i adeiladu ar arferion da a ddilynir gan ALLau sy'n darparu gwybodaeth mewn sawl iaith yn ogystal â'r Gymraeg a'r Saesneg. Tynnir sylw at yr arfer effeithiol hwn mewn trafodaethau sy'n parhau gyda gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.

Cymorth ychwanegol i ddarparwyr gofal plant

Rydym wedi gweithio'n agos gyda Cymunedau Digidol Cymru i gynnig hyfforddiant cyffredinol i'r sector gofal plant i gefnogi a chynyddu eu hyder digidol. Rhwng Medi 2021 a Medi 2022, mae tua 427 o leoliadau gofal plant wedi cofrestru ar gyfer yr adnodd hwn. Gan weithio gyda Cymunedau Digidol Cymru, byddwn yn ystyried yr angen a'r math o gymorth i'w roi i rieni wrth inni ddechrau hyrwyddo'r gwasanaeth digidol ymhlith rhieni o hydref 2022. Mae diweddarau sgiliau staff rheng flaen ALLau sydd â rôl o ran darparu'r Cynnig Gofal Plant hefyd yn cael ei ystyried er mwyn gallu helpu defnyddwyr yn effeithiol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cyllid drwy ALLau i helpu darparwyr i brynu dyfeisiau digidol neu i osod band eang lle bo angen drwy Grant Cyfalaf Bach y Cynnig Gofal Plant.

Cymorth ychwanegol i rieni

Rhaglen i'w defnyddio ar y we yw gwasanaeth digidol cenedlaethol Cynnig Gofal Plant Cymru, ac felly, er mwyn manteisio ar yr ymyriad polisi, bydd angen mynediad at y rhyngwyd ar rieni ac at ddyfais i ddefnyddio'r rhyngwyd. Pan gaiff y gwasanaeth ei gyflwyno, yn hydref 2022, bydd llawer o ddinasyddion Cymru, ac yn ehangach, yn profi pwysau costau byw, a allai arwain at dlodi data, h.y. methu fforddio mynediad at fand eang neu ddata symudol a/neu heb fynediad at ddyfeisiau digidol.

Mae opsiynau wedi'u hystyried ar gyfer ymyriadau pellach i geisio osgoi unrhyw rwystrau i rieni sydd am wneud cais am y Cynnig, sef:

- creu ffurflenni papur i ddefnyddwyr eu cwblhau a chaniatáu i weinyddwyr awdurdodau lleol fewnbynnu a diwygio ceisiadau a chytundebau rhieni ar y gwasanaeth digidol
- datblygu opsiwn TG sy'n caniatáu i weinyddwyr awdurdodau lleol fewngofnodi fel y defnyddiwr, a mewnbynnu a diwygio ceisiadau a chytundebau
- prynu dyfeisiau digidol, bwndeli data a MiFi ar gyfer awdurdodau lleol i'w benthycu i rieni, naill ai'n uniongyrchol, neu drwy eu darparwr gofal plant

Ar hyn o bryd, ni fyddem yn argymhell gweithredu'r ymyriadau pellach hyn oherwydd:

- gall unrhyw riant nad yw'n berchen ar ddyfais neu sy'n dioddef tloidi data ddefnyddio swyddfeydd cynghorau lleol, llyfrgelloedd cyhoeddus neu leoliadau cyhoeddus eraill sy'n cynnig mynediad am ddim at y rhyngwyd er mwyn manteisio ar y Cynnig. Efallai y bydd rhieni hefyd yn gallu defnyddio dyfeisiau a wi-fi mewn lleoliadau gofal plant, yn enwedig gan fod LIC wedi darparu cyllid tuag at gyfarpar TG lle bo angen;
- mae mecanweithiau ar waith yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru, os nad pob un, i helpu pobl yn ddigidol ac yn ariannol, a gofynnwn i

awdurdodau lleol gyfeirio'r rhieni perthnasol at y rhain;

- yn hydref 2022 bwriedir cyhoeddi menter gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu map rhyngweithiol o ddarpariaeth band eang sydd ar gael am ddim. Bydd hyn yn helpu unrhyw rieni sydd am ddod o hyd i ddarpariaeth rhyngwyd am ddim yn eu hardal.

Fodd bynnag, rydym am gadw llygad ar y sefyllfa am chwe mis drwy gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r awdurdodau lleol. Gallem gomisiynu ymchwil ychwanegol i'r mater hwn hefyd drwy ein gwerthusiadau annibynnol. Byddwn yn ymchwilio ymhellach i brofiadau ein cydweithwyr ym maes addysg o fynediad rhieni at TG yn ystod y pandemig er mwyn cofnodi unrhyw wersi a ddysgwyd.

Cenhadaeth 1: gwasanaethau digidol

Cenhadaeth 1 mae gwasanaethau digidol yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a'u dylunio o amgylch anghenion defnyddwyr. Elfen ategol allweddol o'r genhadaeth hon yw rôl y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol. Mae'r Ganolfan wedi bod yn datblygu cyfres o Safonau Gwasanaeth Digidol sy'n berthnasol i holl gyrff gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y Safonau'n cefnogi ac yn ymgorffori cynlluniau gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ac yn darparu gwell gwasanaethau a chanlyniadau iddo.

Cenhadaeth 2: cynhwysiant digidol

Cenhadaeth 2 mae cynhwysiant digidol yn trafod ffyrdd amgen o gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus: "Ar gyfer y rheini nad ydynt yn gallu cymryd rhan yn ddigidol, neu sy'n dewis peidio â gwneud, byddwn yn dal i gadw at egwyddorion dylunio sy'n rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf, fel bod ganddynt ffyrdd eraill o ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Dylai'r rhain fodystal â'r

rhai ar-lein.”

Bydd ein polisi i'r dyfodol yn parhau i adeiladu ar yr angen cydnabyddedig i gefnogi pawb i feithrin y cymhelliant, yr hyder a'r sgiliau er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus a dewis sut maent am ymgysylltu â'n byd cynyddol ddigidol a gwneud y gorau ohono. I'r rheini na allant, neu sy'n penderfynu peidio ag ymgysylltu'n ddigidol, rhaid inni sicrhau bod ffyrdd eraill o gael mynediad at wasanaethau yn parhau. Dylid ystyried y llwybr digidol fel dull o ddatrys problemau yn seiliedig ar anghenion a dymuniadau defnyddwyr, yn hytrach na gweld technoleg fel yr unig ateb. Byddwn ni fel Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau nad oes unrhyw ddinesydd yn cael ei adael ar ôl wrth inni fabwysiadu dull 'digidol yn gyntaf', a bydd cynhwysiant digidol wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae angen i wasanaethau digidol, gwefannau ac apiau fod yn hygyrch i bawb, gan gynnwys defnyddwyr sy'n wynebu rhwystrau o ran:

- eu golwg - fel pobl â nam difrifol ar eu golwg (dall), pobl â rhywfaint o nam ar eu golwg (rhannol ddall) neu bobl liwddall
- eu clyw - fel pobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw
- eu symudedd - fel y rhai sy'n ei chael yn anodd defnyddio llygoden neu fysellfwrdd
- eu meddwl a'u dealltwriaeth - fel pobl â dyslecsia, awtistiaeth neu anawsterau dysgu.

Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We (WCAG) 2.1, sy'n seiliedig ar 4 egwyddor ddylunio:

1. clir
2. ymarferol
3. dealladwy
4. cadarn

Drwy ganolbwyntio ar egwyddorion, nid ar dechnoleg, byddwn yn ystyried yr angen i feddwl am y gwahanol ffyrdd y mae pobl yn rhyngweithio â chynnwys.

Mae Egwyddor 1 ac elfennau o Egwyddor 4 yn berthnasol i'r deunyddiau cymorth sy'n gysylltiedig â'r system ddigidol. Mae Egwyddor 2, 3 ac elfennau o Egwyddor 4 yn fwy penodol i'r system ei hun.

Egwyddor 1: clir

Er mwyn bodloni **Egwyddor 1: clir WCAG 2.1 (ar w3.org)** (<https://www.w3.org/TR/WCAG21/#perceivable>) byddwn yn gwneud yn siŵr bod defnyddwyr yn gallu adnabod a defnyddio'r gwasanaeth gyda'r synhwyrau sydd ar gael iddynt, megis drwy:

- ddarparu testunau amgen (testun 'alt') ar gyfer cynnwys nad yw'n destun
- darparu trawsgrifiadau ar gyfer sain a fideo
- darparu teitlau ar y sgrin ar gyfer fideo
- sicrhau bod cynnwys wedi'i strwythuro'n rhesymegol a bod modd i raglen darllen sgrin ei lywio a'i ddarllen - mae hyn hefyd yn helpu os yw dalenni arddull wedi'u hanalluogi
- defnyddio lliwiau testun sy'n ymddangos yn glir yn erbyn lliw'r cefndir
- sicrhau y gellir defnyddio pob nodwedd pan fydd maint y testun yn cynyddu 200% a bod y cynnwys hwnnw'n ail-lifo i un golofn pan gaiff ei gynyddu 400%
- sicrhau bod ein gwasanaeth yn ymatebol - er enghraifft i ddyfais y defnyddiwr, gogwydd y dudalen a maint y ffont y maent yn hoffi ei ddefnyddio
- sicrhau bod ein gwasanaeth yn gweithio'n dda gyda thechnolegau cynorthwyol - er enghraifft, mae negeseuon pwysig yn cael eu marcio mewn ffordd sy'n cyfleu i'r rhaglenni darllen sgrin eu bod yn bwysig.

Egwyddor 2: ymarferol

Er mwyn bodloni **Egwyddor 2: ymarferol WCAG 2.1 (ar w3.org)**

(<https://www.w3.org/TR/WCAG21/#operable>) byddwn yn gwneud yn siŵr bod defnyddwyr yn gallu dod o hyd i gynnwys a'i ddefnyddio, ni waeth sut y maent yn dewis cael gafael arno (er enghraifft, defnyddio bysellfwrdd neu orchmynion llais), megis drwy:

- sicrhau bod popeth yn gweithio i rai sy'n defnyddio bysellfwrdd yn unig
- galluogi pobl i chwarae, rhewi a stopio unrhyw gynnwys sy'n symud
- peidio â defnyddio cynnwys sy'n fflachio - na gadael i'r defnyddiwr analluogi animeiddiadau
- darparu dolen 'ymlaen i'r cynnwys'
- defnyddio teitlau disgrifiadol ar gyfer tudalennau a fframiau
- sicrhau bod defnyddwyr yn gallu symud drwy'r cynnwys mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr
- defnyddio dolenni disgrifiadol fel bod defnyddwyr yn gwybod i ble y bydd dolen yn mynd â nhw, neu beth yw'r cynnwys cysylltiedig y mae modd ei lawrlwytho
- defnyddio penawdau a labeli ystyrllon, gan sicrhau bod unrhyw labeli hygyrch yn cyfateb neu'n debyg iawn i'r label yr ydym yn ei defnyddio yn y rhyngwyneb
- ei gwneud yn hawdd i rai sy'n defnyddio bysellfwrdd weld yr eitem y mae eu bysellfwrdd neu dechnoleg gynorthwyol yn canolbwyntio arni ar unrhyw adeg - gelwir hyn yn 'ffocws gweithredol'
- defnyddio pethau fel digwyddiadau llygoden neu ryngweithiadau deinamig (fel sweipio neu binsio) dim ond pan fyddant yn gwbl angenrheidiol - neu adael i'r defnyddiwr eu hanalluogi a rhyngweithio â'r rhyngwyneb mewn ffordd wahanol
- ei gwneud yn hawdd i ddefnyddwyr analluogi a newid llwybr byr ar y bysellfwrdd

Egwyddor 3: dealladwy

Er mwyn bodloni **Egwyddor 3: dealladwy WCAG 2.1 (ar w3.org)**

(<https://www.w3.org/TR/WCAG21/#understandable>) WCAG 2.1 byddwn yn gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu deall y cynnwys a sut mae'r gwasanaeth yn gweithio, megis drwy:

- ddefnyddio Cymraeg/**Saesneg (ar GOV.UK)** (<https://www.gov.uk/guidance/content-design/writing-for-gov-uk>) clir
- cadw brawddegau'n fyr
- peidio â defnyddio geiriau ac ymadroddion na fydd pobl yn eu deall - neu roi esboniad os na allwn osgoi gwneud hynny
- esbonio'r holl fyrfoddau ac acronymau, oni bai eu bod yn adnabyddus ac yn cael eu defnyddio'n gyffredin - er enghraifft y DU, yr UE, TAW
- ei gwneud yn glir ym mha iaith y mae'r cynnwys wedi'i ysgrifennu, a nodi os bydd hyn yn newid
- sicrhau bod nodweddion yn edrych yn gyson ac yn ymddwyn mewn ffyrdd y gellir eu rhagweld
- sicrhau bod labeli gweladwy ac ystyrlon ar gyfer pob blwch ar ffurflen - a'u bod wedi'u marcio'n briodol
- ei gwneud yn hawdd i bobl adnabod a chywiro gwallau mewn ffurflenni yn unol â'r arferion gorau ar gyfer dylunio ffurflenni fel y nodir yn **GOV.UK Design System (ar GOV.UK)** (<https://design-system.service.gov.uk/>)

Egwyddor 4: cadarn

Er mwyn bodloni **Egwyddor 4: Cadarn WCAG 2.1 (ar w3.org)**

(<https://www.w3.org/TR/WCAG21/#robust>) byddwn yn gwneud yn siŵr y gall ein cynnwys gael ei ddehongli'n ddibynadwy gan amrywiaeth eang o asiantau defnyddwyr (gan gynnwys porwyr a thechnolegau cynorthwyol eithaf hen, rhai cyfredol a rhai a ragwelir), megis drwy:

- ddefnyddio HTML dilys fel y gall asiantau defnyddwyr, gan gynnwys

technolegau cynorthwyol, ddehongli a dosbarthu cynnwys yn gywir

- sicrhau bod ein cod yn rhoi gwybod i dechnolegau cynorthwyol ar gyfer beth mae pob cydran o'r rhyngwyneb defnyddwyr, beth yw eu cyflwr ar unrhyw adeg ac a ydynt yn newid
- sicrhau bod negeseuon statws pwysig neu ddeialogau moddol yn cael eu marcio mewn ffordd sy'n rhoi gwybod i'r defnyddiwr am eu presenoldeb a'u diben, ac yn gadael iddynt ryngweithio â nhw gan ddefnyddio eu technoleg gynorthwyol
- gadael i'r defnyddiwr ddychwelyd i'r hyn yr oedd yn ei wneud ar ôl iddo ryngweithio â'r neges statws neu fewnbwn moddol.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (<https://llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru>) i gael rhagor o wybodaeth.